**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 4YDD RHAGFYR 2017 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Maer y Dref, Y Cynghorydd J Pearson (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Mrs G Baker; B. Barton, D. Bradley, C. Brockley, J. Davies, Mrs H. Fleet; C. Hughes, Mrs M Jones; A. Kealey, A Khan, A Mason, C. Matthews, T Pearson, M. Tasker, S Williams, M. Worth.

**SWYDDOG:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref
Miss Louise Austin, Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mr Bleddyn Evans, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Sir: Mrs C. Carlisle.
Nifer o'r cyhoedd

**247/17 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Ms G. Campbell, M.A. Jones, Mrs H Meredith, P Richards a Mrs K. Swindon, a'r Cynghorydd Sir - Brian Cossey.

**246/17 Cyhoeddiadau:**

Diolchodd y Maer i bawb a gefnogodd y swper pysgod a sglodion a gododd £232.90.
Llongyfarchwyd y Cynghorwyr Glenys Baker a Gemma Campbell gan y Maer am eu llwyddiant gyda'r stondin yn Ffair Nadolig Rhos pan godwyd £150 i Elusennau'r Maer. Diolchodd y Maer i'r rhai a fu'n helpu ar y diwrnod hefyd.
Dyddiadau i'r Dyddiadur
Dawnsio gwerin i'w gynnal yn Chwefror / Mawrth
Sioe Adloniant (disgwyl am seren enwog) Ebrill
Estynnodd y Maer ei dymuniadau gorau i'r holl aelodau a'r staff am Nadolig Hapus a Blwyddyn Newydd Dda

**247/17 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**248/17 Ymwelwyr:**

Dywedodd y Maer wrth yr Aelodau bod Liz Millman wedi gofyn i gael gohirio dangos y ffilm tan y flwyddyn newydd oherwydd problemau technegol gyda'r is-deitlau.

Croesawyd Bleddyn Evans o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn ffurfiol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, er mwyn iddo roi diweddariad am y Swyddfeydd newydd. Rhoddodd Bleddyn gyflwyniad byr am y prosiect er gwybodaeth i aelodau newydd y Cyngor, yn cynnwys y weledigaeth, buddiannau, cerrig milltir allweddol, ffeithiau allweddol a'r prif ddelweddau. Cyfeiriodd at y gost / cyllid y datblygiad a'r brydles 40 mlynedd i GBSC.

Aeth ymlaen i esbonio'r llwyddiannau hyd yn hyn oedd yn cynnwys: gwerth cymdeithasol y cynllun a'r defnydd o nifer o gontractwyr lleol; cyflogaeth i dri o bobl ifanc o ganlyniad i raglen 'Get into Construction' Ymddiriedolaeth y Tywysog; cyfarfod a rhagori ar y targedau a osodwyd gan 'National Skills Academy for Construction'; 14 o swyddi newydd wedi eu creu, 40 wythnos o hyfforddiant wedi eu cwblhau, 3 wedi cael eu gosod mewn gwaith a 4 prentisiaeth newydd; ysgolion yn ymwneud a nifer o fentrau; ag archwilio'r gallu i gyfrannu i welliannau i siopau canol y dref.

Yna aeth Bleddyn ymlaen i roi trosolwg o'r hyn oedd am ddigwydd yn 2018, gyda'r nifer o grefftwyr ar y safle yn dod i'r brig yng nghanol yr haf gydag oddeutu 159 o weithwyr. Y targed i gwblhau'r gwaith a throsglwyddo'r safle yw Hydref 2018 ac yna bydd y staff yn mynychu'r safle cam wrth gan o hynny tan Ionawr 2019. Yna bydd asedau dros ben, yn cynnwys y Ganolfan Ddinesig, yn cael eu rhyddhau i gael eu hailddatblygu. Atgoffwyd yr Aelodau ganddo mai gobaith CBSC a Muse oedd denu buddsoddiad i ddatblygu'r Ganolfan Ddinesig i fod yn westy, ond roedd hyn yn 'annhebygol' i ddigwydd. Y tebyg yw mai datblygiad preswyl fydd yn fwyaf ymarferol ond ni wnaed penderfyniad terfynol ar ei ddefnydd hyd yn hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i Bleddyn am ei gyflwyniad a chafwyd sesiwn o holi gan yr aelodau. Roed y cwestiynau a'r sylwadau yn ymwneud a'r materion canlynol: gwerth safle'r Ganolfan Ddinesig; cymhareb y nifer o ddesgiau i nifer y staff a sut fydd hyn yn cael ei weithredu pan fydd yr holl staff i mewn; canran y cartrefi fforddiadwy fydd ar gael ar safle'r Ganolfan Ddinesig; cadarnhad na fydd caffi ar y safle; pryderon am barcio ceir i staff / ymwelwyr; costau cyfalaf sylweddol pe byddai'r adeiladau presennol yn cael eu cadw; y rhesymau am yr annhebygrwydd o gael gwesty; indecs cyswllt taliadau blynyddol y brydles; y nifer o bwyntiau fydd ar gael i wefru ceir trydan; meysydd parcio ceir ar gael i'r cyhoedd ar benwythnosau ac / neu ddigwyddiadau.

Diolchwyd y Cadeirydd i Bleddyn Evans am fod yn bresennol a gadawodd y cyfarfod.

**249/17 <u>Cysylltiad efo'r Cyngor Sir:</u>**

Atgoffwyd yr Aelodau am yr angen i unrhyw bryderon / materion cael eu cyfeirio at y Clerc ymlaen llaw er mwyn cael rhoi ateb. Nid oedd gan y Cynghorydd Sir oedd yn bresennol unrhyw adroddiad.

**250/17 <u>Cofnodion:</u>**

**a**. ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 23ain Hydref 2017.***

**b.** ***Penderfynwyd <u>derbyn</u> copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***

***i. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 24ainHydref 2017.***

***ii Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 15fed Tachwedd 2017 (Drafft)***

***iii Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 21ain Tachwedd 2017 (Drafft).***

**251/17 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :</u>**

**a 203/17(b) - Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gynghorau Cymuned a Thref:**

Cyflwynodd y Clerc ymateb drafft i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad i'w ystyried gan y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Barton ei fod wedi mynychu cyfarfod a drefnwyd gan Un Llais Cymru (ULlC) yn y Waun a bod cynrychiolwyr o oddeutu 40 o Gynghorau yn bresennol. Bydd Prif Weithredwr ULlC yn casglu'r sylwadau a wnaed at ei gilydd a pharatoi ymateb ar ran Un Llais Cymru. Awgrymodd y Cynghorydd Barton y dylid gohirio ymateb y Cyngor Tref hyd nes iddo dderbyn y wybodaeth hon.

***Penderfynwyd gohirio anfon unrhyw ymateb hyd nes y derbynnir ymateb Un Llais Cymru a'i fod wedi cael ei ddosbarthu.***

**b** ***Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:***

**i.** ***Cofnod 212/17(d) - Llochesi Fysus*:**

***Dyrannu £1,000 ychwanegol o'r arian wrth gefn i gyllideb eleni i allu symud ymlaen i gael un cysgodfan newydd (Rhodfa Brompton) ac un i gymryd lle un (Ffordd Llanrwst).***

**ii.** ***Cofnod 225/17 - Ymgyrch Atal Sbwriel a Chŵn yn Baeddu:***

***Dyrannu cyllideb gychwynnol o £2,500 allan o'r cyllid sydd ar gael yn yr arian wrth gefn cyffredinol er mwyn dechrau ar unwaith ar ymgyrch addysgu a gorfodaeth mewn nifer o fannau lle mae'r broblem o sbwriel / cŵn yn baeddu yn bodoli.***

**iii.** ***Cofnod 233/17 - Cynnig am Brosiect Lwfans Ward:***

***Cymeradwyo taliad o £426 i ganolfan Cymunedol Tan Lan.***

**iv.** ***Cofnod 237/17(d) - Gardd y Dywysoges Diana:***

***Cymeradwyo cyllideb o hyd at £500 i ad-dalu Rotari parthed costau'r planhigion, offer, deunydd ayb.***

**c.** ***Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

**252/17 <u>Heddlu Gogledd Cymru:</u>**

**a.** Cyflwynodd y Clerc llythyr oddi wrth Gomisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ynglŷn â phwysedd cyllidebol ag eraill ac o ganlyniad y gostyngiad yn nhimau'r rheng flaen a phlismona cymdogaethau.

***Penderfynwyd derbyn y llythyr a'i nodi.***

**b.** Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth yn cadarnhau bod oriau agor gwarantedig Goraf Heddlu Bae Colwyn wedi gostwng i un diwrnod yr wythnos (dydd Llun)

***Penderfynwyd gwahodd yr Arolygydd Kelly Isaacs, Arfordir Gorllewin Conwy, i ddod i gyfarfod yn y flwyddyn newydd i roi diweddariad i'r Cyngor am faterion plismona sy'n effeithio ar y gymdogaeth leol.***

**253/17 <u>Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru:</u>**

Cyflwynodd y Clerc holiadur i bartneriaid a gofynnod i'r Aelodau ystyried sut i ymateb.

***Penderfynwyd cyflwyno ymateb yn seiliedig ar hyn a welir yn Atodiad 'B' sydd gyda hwn ac estyn gwahoddiad i gynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymunedol i ddod i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.***

Daeth y cyfarfod i ben am 7.40 p.m.

.....Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 4TH DECEMBER 2017**

**PRESENT:** The Town Mayor, Cllr J Pearson - Chairman
Cllrs: Mrs G Baker; B Barton; D Bradley; C Brockley; J Davies; Mrs H Fleet; C Hughes; Mrs M Jones; A Kealey; A Khan; A Mason; C Matthews; A Pearson; M Tasker; S Williams; M Worth.

**OFFICER:** Mrs C Earley, Town Clerk
Miss Louise Austin, Administrative Assistant

**IN ATTENDANCE:**
Bleddyn Evans, Conwy County Borough Council
County Councillors: Mrs C Carlisle
Member of the public

**195/17 Apologies for Absence**:

Apologies for absence were received from Cllrs: Ms G Campbell, M Jones, Mrs H Meredith, P Richards, Mrs K Swindon and from County Councillor Brian Cossey.

**246/17 Announcements:**

The Mayor thanked all those who had attended and supported the Fish and Chip Supper, which had raised £232.90.

The Mayor extended congratulations to Cllr Glenys Baker and Cllr Gemma Campbell for the successful stall held at Rhos Christmas Fayre, which had raised £150 for the Mayor's Charities. The Mayor also thanked all those who had helped on the day.

Dates for Diary:
Barn Dance: February/March
Variety Show (pending headline act) April

The Mayor wished all members and staff a Happy Christmas and a Happy New Year.

**247/17 Declarations of Interest**:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

**248/17 Visitors:**

The Chairman informed the members that due to technical issues with the film and subtitles, Liz Millman had requested to defer showing the film until the New Year.

The Chairman formally welcomed Bleddyn Evans, CCBC, to give an update on the new CCBC Office development. Belddyn gave a brief introduction to the project, for the benefit of new members of the Council, to include the vision, benefits, key milestones, key facts and principal images. This included an explanation about the cost/funding of the development and the resulting 40 year lease to CCBC.

He went on to explain the success stories to date, which include: the social value plan and use of a number of local contractors; three young people finding employment as a result of the Prince's Trust 'Get into Construction' programme; meeting/exceeding targets set under the National Skills Academy for Construction; 14 new jobs created, 40 training weeks completed, 3 work placements and 4 new apprenticeships; school engagement on a number of initiatives; and exploring the scope to contribute towards town centre shop front improvements.

Bleddyn then gave a brief overview of what is in store for 2018, with the number of trades on site peaking in mid-summer to around 150 people, a target completion and handover date of October 2018 and then a phased occupation by staff from then up to January 2019. Surplus assets will then be released, including the Civic Centre for redevelopment. He reminded Members that they (CCBC and Muse) had been hoping to attract investment to develop the Civic Centre into a hotel, but that this now looked 'highly unlikely', with a residential development looking to be more viable, but that the ultimate use had not been firmed up as yet.

The Chairman thanked Bleddyn for his presentation and questions were invited from members. A question and answer session followed, covering the following topics: the value of the Civic Centre site; the ratio of fixed desks to staff and how it would work at peak occupancy times; the % of affordable housing that the Civic Centre site would provide; confirmation that there will not be a café on site; concerns about car parking for staff/visitors; the significant capital costs that would be incurred if existing buildings were retained; the reasons a hotel development is unlikely; index linking of annual lease payments; number of electric vehicle charging points to be provided; availability of car parks for use by public at weekends and/or for events.

Bleddyn Evans was then thanked for attending by the Chairman and he retired from the meeting.

**249/17 <u>County Council Liaison:</u>**

Members were reminded of the request that any issues/concerns be raised in advance, via the Clerk, to enable a response to be given. There was no report from the County Councillor present.

**250/17 <u>Minutes</u>**:

a. ***Resolved to receive, approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting of the Council, held on 23rd October 2017.***

**b.** ***Resolved to receive the minutes of the following meetings:***

**i.** ***The General Purpose & Planning Committee held on 24th October 2017.***

**ii.** ***The Policy & Finance Committee held on 15th November 2017 (Draft).***

**iii.** ***The General Purposes & Planning Committee held on 21st November 2017 (Draft)***

**251/17 <u>Matters Arising from Those Minutes:</u>**

**a. Min. 203/17(b) – Welsh Government Review of Town and Community Councils:**

The Clerk submitted a draft response to the consultation questions, for consideration by the Council. Cllr Barton reported that he had attended an event at Chirk, organised by One Voice Wales, with around 40 Councils represented. The Chief Executive of OVW will be collate the comments made and compiling a response on behalf of One Voice Wales. Cllr Barton suggested that the Town Council response be deferred until he has received this information.

***Resolved to defer submitting any response until the One Voice Wales response has been received and circulated.***

**b.** ***Resolved to endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the following Minutes:***

**i.** ***Min. 212/17(d) – Bus Shelters:***

***To allocate an additional £1000 from reserves to enable one new bus shelter (Brompton Avenue) and one replacement shelter (Llanrwst Road) to proceed from this year's budget.***

**ii.** ***Min. 225/17 – Litter & Dog Fouling Campaign:***

***To allocate an initial budget of £2,500 to commence an education and enforcement campaign in several litter/dog fouling hot-spots with immediate effect, from funds available in general reserves.***

**iii.** ***Min. 233/17 – Ward Allowance Project Proposal:***

***To approve the payment of £426 to Tan Lan Community Centre.***

**iv.** ***Min. 237/17(d) – Princess Diana Garden:***

***To approve the budget of up to £500 to reimburse Rotary in respect of costs for plants, tools, materials etc.***

**c.** ***Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in the Minutes.***

**252/17 <u>North Wales Police:</u>**

**a.** The Clerk submitted a letter from the Police & Crime Commissioner and the Chief Constable regarding budgetary and other pressures and the resulting decrease in frontline, neighbourhood policing teams.

***Resolved to received and note the letter.***

**b.** The Clerk submitted information to confirm that the guaranteed opening hours for Colwyn Bay Police Station have been reduced to one day per week (Monday).

***Resolved to invite Inspector Kelly Isaacs, West Conwy Coastal to attend a meeting in the new year to give an update to the Council on policing matters affecting the local community.***

**253/17 <u>North Wales Community Health Council:</u>**

The Clerk submitted a questionnaire for partners and asked members to consider a response.

***Resolved to submit a response, as detailed in Schedule 'B' attached, and to invite a representative from the CHC to attend a future meeting of the Council.***

The meeting closed at 7.40 p.m.

…… Chairman